

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Taflen Ffeithiau



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwastraff



Y cefndir

Mae lefelau uwch o ailgylchu, trin gwastraff bwyd ac adfer ynni yn hybu economi Cymru ac yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd ac adnoddau naturiol.

Mae cynnydd wedi'i weld o ran ailgylchu, yn enwedig o gartrefi. Fodd bynnag, er gwaethaf y datblygiadau hyn, mae deunyddiau y gellid eu hailgylchu yn parhau i gael eu hanfon i safleoedd tirlenwi, eu hanfon i'w llosgi neu yn achos gwastraff bwyd, eu taflu i'r carthffosydd.

Prif Nodweddion

Mae'r Ddeddf wedi cyflwyno trefniadau newydd o ran rhannu a chasglu gwastraff. Bydd darpariaethau'r Ddeddf yn cael eu gweithredu ar wahanol fannau yn y gadwyn rheoli bwyd – wrth i'r gwastraff gael ei gynhyrchu, wrth i gwmni gasglu'r gwastraff ac ar wahanol adegau o drin a gwaredu neu adfer y gwastraff yn derfynol.

Mae'r Ddeddf yn gweithredu ar y cyd â'r gwaharddiadau ym maes tirlenwi i sicrhau bod deunyddiau gwerthfawr yn cael eu hailgylchu.

Bydd cyfeirio deunyddiau o gael eu gwaredu, tuag at ailgylchu neu adfer o safon uchel yn helpu gyda'r broses o symud ymlaen i ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau sy'n deillio o wastraff. Bydd cynnydd mewn ailgylchu ac adfer gwastraff yn helpu i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol tra'n cyfrannu hefyd at y canlyniadau positif i'r economi yn ogystal â'r amgylchedd.

Yn fyr, amcanion y darpariaethau yw:

- Mae cael **cynhyrchwyr i wahanu gwastraff** yn sicrhau bod deunyddiau ailgylchu sy'n lân, heb eu llygru yn cael eu gwahanu cyn symud ymlaen i gam nesaf y broses. Golyga hyn y bydd y pris yn uwch yn y farchnad ailgylchu, a bydd busnesau sy'n gwahanu eu gwastraff yn gweld y gallant leihau eu costau ym maes casglu a gwaredu gwastraff.
- Mae **casglu ar wahân** yn sicrhau bod gwasanaeth casglu llawn ar wahân ar gyfer deunyddiau ailgylchu sydd wedi'u didoli ar gael i'r rhai hynny sy'n cynhyrchu gwastraff. Bydd hyn yn helpu i wella ansawdd y deunyddiau sydd ar gael ar gyfer ailgylchu gan sicrhau nad yw'r deunyddiau y gellid eu hailgylchu yn cael eu gwastraffu.

- Bydd **gwahardd ynni o wastraff** yn sicrhau na fydd deunyddiau ac adnoddau gwerthfawr y gellid eu hailgylchu yn cael eu llogi. Bydd hyn yn diogelu'r amgylchedd drwy sicrhau mai dim ond gwastraff gweddilliol sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi, neu yn cael ei losgi.
- Bydd **gwahardd gwastraff bwyd rhag cael ei waredu yn y system garthffosiaeth** yn sicrhau bod mwy o wastraff bwyd ar gael i'w drin a'i ddefnyddio yn hytrach na'i waredu. Caiff y gwastraff ei ddefnyddio fel ffynhonell hollbwysig o ynni adnewyddadwy a gwrtaith o safon uchel. Manteision eraill tebygol fydd lleihau'r risg o flocio, gorlifo'r system garthffosiaeth, llygru'r amgylchedd, ogleuon a phlâu llygod.

Manteision

Byddai gwella'r dulliau presennol o reoli gwastraff drwy'r Ddeddf yn rhoi mwy o sicrwydd o ran buddsoddi yn y seilwaith ailgylchu, casglu gwastraff a thrin gwastraff.

Mae hyn yn arwain at:

- Arbed costau i fusnesau drwy beidio â gorfod talu y dreth dirlenwi.
- Sicrhau bod busnesau yn fwy cystadleuol trwy leihau costau deunyddiau.
- Cynyddu cyflogaeth drwy greu swyddi ym maes casglu ac ailbroseu.
- Mwy o gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy o wastraff busnesau.
- Rhoi mwy o sicrwydd o gyflenwad o adnoddau i'n sector gweithgynhyrchu.
- Helpu i sbarduno twf gwyrdd a datblygu economi gylchol i Gymru trwy gael busnesau gweithgynhyrchu yng Nghymru i ddefnyddio deunyddiau y gellir eu hailgylchu sy'n cael eu casglu yng Nghymru.
- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Lleihau ôl-troed ecolegol Cymru.

Yr amserlen

Mae disgwyl i'r rheoliadau gael eu llunio wedi Ionawr 2017.

Rhagor o wybodaeth

Daeth y Ddeddf yn gyfraith ym mis Mawrth 2016. Gallwch ddarllen rhagor am y Ddeddf ei hun ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.llyw.cymru/deddfyramgylchedd

Gallwch hefyd danysgrifio i gael ein e-fwletin misol drwy anfon e-bost at:

NRBulletin@cymru.gsi.gov.uk